

Dan Bwysau | Y Gyfnewidfa – pennedd 2

Betsan Powys

Croeso nôl, i'r ail bennod o'r Gyfnewidfa, sy'n bodlediad untro. Mae'n gyfle i wrando ar y dyn sydd, am yr wyth mlynedd diwethaf neu bron i wyth mlynedd ar hyn o bryd, wedi bod yn cadw llygad agos iawn ar sut rydyn ni'n gwario ein harian ar ein gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru,

Betsan Powys ydw i.

Dyma Adrian Crompton.

Croeso yn ôl Adrian. Adrian yw'r Archwilydd Cyffredinol sy'n gadael, neu ar fin gadael, yr haf nesaf.

A'r tro yma yn y podlediad hwn, rydyn ni'n mynd i ystyried, a thrafod, yr heriau enfawr sy'n wynebu'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Ac rydyn ni'n gwybod eu bod nhw'n enfawr.

Mae'n rhaid i ni ddweud, bydd unrhyw un sy'n gwylio'r newyddion yn gwybod am yr heriau sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ac mae'n debyg y byddwch chi'n eu teimlo yn eich bywydau bob dydd hefyd.

Felly dewch 'mlaen te, Adrian.

Cyfle i ddweud ychydig o bethau ac ychydig o bethau i'w egluro.

Dilynwch yr arian, yw'r hyn maen nhw'n ei ddweud.

Felly gadewch i ni ddechrau gwneud i chi siarad a dechrau gyda'r un mawr yna, pwysau ariannol.

Felly esboniwch yn glir i ni.

Wrth gwrs.

Allwn ni ddim sôn am unrhyw beth yn y rôl hon heb sôn am yr arian.

Rydych chi'n hollol iawn.

A dros y cwpwl o ddegawdau diwethaf, rydym wedi gweld gwasgfa wirioneddol gyson ac eithaf difrifol ar y cyllid cyhoeddus, yng Nghymru.

Yma yn Archwilio Cymru, rydyn ni'n edrych ar hynny i gyd. Os ydym yn dechrau, gyda'n persbectif ar lywodraeth leol, yr hyn rydyn ni'n ei weld ar hyn o bryd, mewn llawer o achosion, yw awdurdodau lleol sydd ar ddibyn cynaliadwyedd ariannol, byddwn i'n dweud.

Felly, er clod iddynt, mae gan awdurdodau lleol ledled y wlad ddealltwriaeth eithaf da ar y sefyllfa nawr, a sut maen nhw'n mynd i reoli eu cyllidebau o fewn y flwyddyn.

Ond maen nhw'n byw am y gorwel tymor byr hwnnw.

Ac mae rhai awdurdodau yn mynd i mewn i'w cronfeydd wrth gefn dim ond i fantoli'r llyfrau, ac mae hynny'n anghynnaladwy.

Roeddwn i ar fin dweud, gyda llaw, mae'r larwm yn canu dros wariant cyhoeddus.

Mae larwm yn canu yn rhywle, felly maddeuwch i ni, ond does dim byd y gallwn ei wneud am hynny.

Felly byddwn yn cadw at y larwm y gallwn ni sôn amdano.

Adrian

iawn.

Nawr, dydyn ni ddim wedi cael unrhyw achosion o'r fath yng Nghymru, sy'n dyst i sgil, ymroddiad gwleidyddion a swyddogion ledled y wlad.

Ond fel y dywedais i, yr hyn y mae ein gwaith yn ei ddweud wrthym yw bod rhai awdurdodau ar gyrion y sefyllfa honno.

Ac maen nhw'n wynebu, chi'n gwybod, costau cynyddol mewn nifer o feysydd, gwasanaethau plant, yn un amlwg, ond hefyd wrth ddarparu llety dros dro.

Mae'r rhain yn wasanaethau a arweinir gan y galw y mae'n rhaid iddynt ymateb iddynt.

Ac felly, mewn rhai achosion, ni fydd yn cymryd llawer i wthio'r awdurdodau hynny dros y dibyn, rwy'n ofni.

Felly ydyn ni'n dweud, chi'n gwybod, efallai eich bod chi'n

Brif Swyddog Cyllid ar gyfer awdurdod lleol a, dwi ddim yn gwybod, bod ychydig o deuluoedd yn symud i'r ardal gyda gofynion mawr ar eich gwasanaeth, efallai plant sydd angen addysg anghenion arbennig ac yn y blaen.

Ond ydyn ni'n dweud y gallai hynny fod yn ddigon mewn rhai achosion i achosi problem go iawn i awdurdodau sy'n trin miliynau a miliynau o bunnoedd?

Ydyn ni ar y pwynt hwnnw?

Rydyn ni ar y pwynt hwnnw mewn nifer fach o achosion, chi'n gwybod, nid ar gyfer y sector yn ei gyfanrwydd, ond nifer fach o achosion, rwy'n credu ydyn, mi rydyn ni.

Ar draws y sector cyfan, byddwn i'n dweud, mae angen i'r sector cyfan nawr gael gafael cryfach ar ei sefyllfa ariannol canolig a hirdymor.

Felly, mae rhai mewn sefyllfa iachach nag eraill, ond mae angen i bawb dynhau eu gafael ar y persbectif tymor hwy hwnnw.

Ond rydych chi'n hollol gywir.

Chi'n gwybod, mae llywodraeth leol yn aml o dan ddyletswydd statudol i ddarparu gwasanaethau.

Ac mae'r gwasanaethau hynny, os ydyn nhw'n cael eu harwain gan y galw, chi'n gwybod, yn gallu achosi problem ariannol os yw awdurdodau ar y dibyn.

Ac, wrth gwrs, yr her arall yw ein bod ni'n parhau i ddweud wrth y bobl hyn y byddan nhw yn y newyddion a bydd penawdau ofnadwy amdanynt os ydyn nhw'n gwneud camgymeriad ar hyn o bryd, os na allant gadw eu hysgolion ar agor, chi'n gwybod, problemau enfawr yn y GIG sydd ar y newyddion bob dydd.

Rydyn ni hefyd yn dweud wrthyn nhw, oes, mae'n rhaid i chi ddechrau meddwl am y dyfodol hirdymor a rhoi pethau'n iawn.

Felly, gallwch weld ei fod yn rhwymiad eithaf anodd on'd ydy, i'r rhai sy'n gyfrifol?

Mae rolau arwain mewn gwasanaeth cyhoeddus yn swyddi anhygoel o anodd, a chi'n gwybod, rwy'n cydnabod hynny drwy'r amser yn fy ngwaith.

Ac, mae'n bwysig iawn cydnabod hynny, rwy'n meddwl, oherwydd mae'n rhy hawdd i bobl fel fi, ac eraill, amlygu a beirniadu pan fydd pethau'n mynd o'i le.

Ond mae'r rhain yn rolau anodd iawn, fel rydych chi'n ei ddweud, o dan lawer o bwysau.

Ac mae'n dyst i'm cydweithwyr yn y sector cyhoeddus eu bod yn gwneud gwaith mor anhygoel y rhan fwyaf o'r amser

Chi'n gwybod, rydyn ni wedi sôn am lywodraeth leol, chi'n gwybod, mae'r GIG yn amsugno'r darn mwyaf o gyllid, i ni yng Nghymru.

Ar ddechrau'r datganoli, roedd tua thraean o'r holl arian a ddatganolwyd i Gymru yn mynd i'r GIG.

Heddiw rydyn ni'n uwch na 50%.

Mae hynny'n newid sylfaenol enfawr ar ffurf cyllid cyhoeddus.

Ddegawd yn ôl, gwnaeth y Senedd ddeddfu i ddweud bod yn rhaid i'n cyrff ieuchy yn y GIG fantoli'r cyfrifon dros gyfnod o dair blynedd.

Ac mae'n rhaid iddynt hefyd fod â chynlluniau ariannol tymor canolig blaengar y byddant yn cytuno â'r Llywodraeth arnynt.

Felly dyna'r gyfraith.

Yr hyn y mae ein gwaith yn Archwilio Cymru yn ei ddangos yw nad yw'r rhan fwyaf o gyrff iechyd yn bodloni'r ddyletswydd honno o fantoli'r cyfrifon.

Felly, fel Archwilydd Cyffredinol, rydw i wedi rhoi amodau ar eu cyfrifon.

Chi'n gwybod, mae hynny'n ddatganiad difrifol.

Betsan

Mae'r feiro goch allan gennych chi.

Adrian

Yn union.

Ond mae hynny er gwaethaf y lefelau uchaf erioed o fuddsoddiad yn y GIG, ac er clod i'r GIG, lefelau uchaf erioed o arbedion wedi'u nodi hefyd.

Ond nid yw'r arian yn ddigonol i gadw i fyny â'r galw cynyddol am wasanaethau.

Felly eto, mae'r model hwnnw i mi, yn syml, yn anghynladwy.

Mae angen newid rhywbeth mwy sylfaenol, oherwydd ni allwn barhau i symud cyfran gynyddol i'r GIG.

Yn enwedig pan nad yw'n gallu cadw i fyny â'r galw cynyddol.

Felly ydych chi'n dweud wrthyn nhw bod yn rhaid iddyn nhw ddod ag ef i lawr?

Chi'n gwybod, all e ddim bod dros 50%.

Rydyn ni i gyd yn gwybod, chi'n gwybod, ei fod yn rhan mor allweddol o gyllideb Cymru.

Mae rhaid i bawb arall, rwy'n dyfalu, gymryd llawer llai oherwydd y gwariant cynyddol hwnnw, rydych chi'n ei ddweud sydd wedi cynyddu cymaint yn ystod datganoli.

Ac eto, rwy'n dychmygu y bydd llawer o'r rhai sy'n gwrando, rhai o'r rheiny sy'n gwylio yn dweud, ie, ond mae ein GIG, gallwn weld ei fod mewn trafferthion.

Mae'n, chi'n gwybod, mae'r gronfa arian yn enfawr.

A oes rhaid iddyn nhw unioni'r cydbwysedd hwnnw yn y gyllideb?

Oes. Edrychwch, dydw i ddim yn diystyru pa mor anodd fydd hyn.

A dydy e ddim i mi, diolch byth, i wneud y dewisiadau gwleidyddol anodd hynny ynglŷn â ble mae'r cyllid yn mynd.

Fodd bynnag, fy swydd i yw amlygu'r hyn rwy'n ei weld.

Ac fel rydw i wedi'i ddisgrifio, chi'n gwybod, rwy'n gweld newid eithaf sylfaenol yn ffurf cyllid cyhoeddus, ac enghreifftiau ar lawr gwlad sy'n dweud wrthyf nad yw'r sefyllfa honno'n gynaliadwy.

Chi'n gwybod, fe wnes i sôn am y cynlluniau ariannol blaengar y disgwylir i gyrff y GIG fod â nhw.

Ar y cyfan, nid yw'r rhain ar waith gan ein byrddau iechyd.

Felly nid wyf yn gweld, chi'n gwybod, y golau ar ddiwedd y twnnel yn y ffordd honno.

Betsan

Mae hynny ychydig yn frawychus, onid yw e?

Wel, mae'n frawychus, yn bendant.

Mae hwn yn swm enfawr, enfawr o arian.

Pobl wych yn darparu gwasanaeth gwych.

Ond, rwy'n ofni mai fy swydd i yw camu'n ôl a chymryd golwg ychydig yn oerach ar y rhifau, a dyna beth rwy'n ei weld.

lawn wel, gadewch i mi eich atgoffa, mae atebion i ddod, felly dydyn ni ddim yn mynd i osgoi'r un yma.

Ond am y tro, rydyn ni'n sôn am y problemau.

Gaf i godi un peth er hynny, sydd, cyn i ni fynd ymlaen i ymddiriedaeth a hyder.

Wel, rwy'n tybio ei fod yn ddechrau ymddiriedaeth a hyder, sy'n her enfawr arall sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus.

Mae hynny wedi cael ei danseilio, ac mae'n un o'r rhesymau pam mae wedi cael ei danseilio, bod pobl wedi clywed, dyweder o'r Unol Daleithiau, rhannau eraill o'r byd. Dewch ymlaen, gweinyddiaethau newydd yn dod i mewn, yn torri gwariant ar, chi'n gwybod, y sector cyhoeddus, mae angen ei wneud.

Mae'n rhaid ei wneud.

Pam na all hynny ddigwydd yng Nghymru?

Mae'r weinyddiaeth nesaf, pwy bynnag fyddan nhw fis Mai nesaf, mae angen iddyn nhw ddod i mewn a thorri gwariant cyhoeddus a'i sortio allan.

Pan fyddwch chi'n clywed y math hwnnw o beth o bell i ffwrdd, ydych chi'n clywed adleisiau ohono yma nawr?

Ac a ellir achub miliynau a biliynau?

Mae'r naratif hwnnw am effeithlonrwydd mewn gwariant y llywodraeth, bob amser wedi bod o gwmpas. Mae'n fater syml ac arferol i ni yn y Swyddfa Archwilio.

Rydyn ni'n ymwneud â cheisio annog a nodi gwerth am arian.

Mae'n teimlo i mi ar hyn o bryd fod ganddo flas ychydig yn wahanol, heb os.

Rwy'n dyfalu mai'r hyn y byddwn i'n ei ddweud o'm sedd i, yn gyntaf, nid yw mor hawdd ag y mae pobl yn meddwl.

Trwy fy ngwaith i, wyddoch chi, rwy'n gweld enghreifftiau o wastraff, o dwyllo, o gamgymeriad, yn y system, sydd yn rhaid eu tynnu allan, heb amheuaeth.

Ac nid oes symiau dibwys y gellir eu cyflwyno yn y modd hwnnw.

Yng nghynllun y £28 biliwn hwnnw o wariant cyhoeddus, mae'r pethau hynny, yn gyffredinol, ar yr ymyl, ac atal un rhaglen yma neu un fenter fan draw, yw'r peth iawn i'w gwestiynu yn wleidyddol, heb os.

Ond o ran y darlun mawr o gyllid cyhoeddus, mae angen rhywfaint o drawsnewidiad mwy sylfaenol, byddwn i'n awgrymu, yn y model cyfan o gyflawni.

Rwy'n tybio, fel erioed, byddech chi'n dweud pe bai'n hawdd, yna byddai wedi cael ei wneud, wel, cyn eich amser chi, heb sôn am yn ystod eich amser chi, rwy'n dyfalu

Adrian

Mae'n rhai o'r pethau rwy'n siŵr y byddwn ni'n sôn amdany'n nhw, yn gofyn i ni symud i feddylfryd tymor hwy, i ganolbwyntio ar fwy o atal yn hytrach na delio â symptomau materion.

Mae'r pethau hyn yn hawdd i'w dweud, mae pawb yn cytuno â nhw, ond yn anodd iawn effeithio arnynt. Maen nhw'n cymryd amser, ac efallai na fydd yr amser hwnnw yn cyd-fynd â chylchoedd gwleidyddol ac yn y blaen.

Mae hefyd yn wir nad yw'r manteision bob amser yn cael eu gweld gan y sefydliad sy'n cymryd rhywfaint o'r boen.

Felly, mae'n rhaid i chi wneud y pethau anodd, cymryd y penawdau cas, ac erbyn i bethau fod yn well, rydych chi wedi hen fynd.

Adrian

Yn union, ie.

Felly, o safbwynt y cyhoedd, a fydd yn pleidleisio yng Nghymru os byddant yn dewis gwneud hynny fis Mai nesaf.

Rydych chi eisoes yn clywed llawer iawn o bobl yn dweud, mawredd, rydyn ni'n gwario cymaint o hyn, ond nid yw'n gwneud mor dda, oherwydd eu profiadau o broblemau, o adeiladau yn cwmpo lawr, o bethau'n edrych yn wael, chi'n gwybod, dydyn nhw ddim yn sefyll i fyny ac yn dweud, gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gallwn fod yn falch ohonynt, ar ôl 25 mlynedd o ddatganoli.

Maen nhw'n gallu gweld bod problemau, ond maen nhw eisiau atebion.

Felly, chi'n gwybod, sut ydych chi'n ailadeiladu'r hyder hwnnw ar adeg pan, mewn gwirionedd mae'n rhaid i chi wneud toriadau ac mae dal rhaid i chi fod yn gwneud pethau, chi'n gwybod, rydych chi'n ceisio eu gwneud yn fwy effeithlon, ond mewn gwirionedd nid yw'r hyn rydych chi'n ei wneud yn arllwys mwy o arian i mewn.

Sut ydych chi'n cael yr hyder hwnnw yn ôl?

Adrian

Yn hollol.

Mae hynny'n gwestiwn anodd.

Betsan

Dydw i ddim yn siŵr y dylwn fod yn gofyn, dewch ymlaen dywedwch sut mae'r hyder wedi mynd ar hyn o bryd yn hytrach na'r atebion y byddwn yn dod atynt mewn munud.

Felly, rwy'n credu bod ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd, chi'n gwybod, mae hyn yn isel ac yn lleihau yng Nghymru yn ein modelau darpariaeth gwleidyddol a gwasanaethau cyhoeddus.

Nid yw hynny'n unigryw i ni.

Mae hynny'n ffenomenon fyd-eang.

Felly mae yna lawer, iawn o ffactorau yn rhan ohono, rhai ohonynt allan o'n rheolaeth ni, chi'n gwybod, y dirwedd cyfryngau byd-eang a sut rydym yn cael gafael ar wybodaeth ac nid yw'r gwir y dyddiau hyn, yn anffodus, o fewn ein rheolaeth.

Fodd bynnag, mae rhai pethau o fewn ein rheolaeth.

Felly, fe wnaethon ni drafod yn y bennod flaenorol, chi'n gwybod, rhywfaint o'r gwaith rhyfeddol a gyflawnodd y gwasanaeth cyhoeddus ar adeg o argyfwng, yn ystod y pandemig, a phwyntiau eraill.

Rhan o nodwedd yr adeg honno oedd y cyflymder yr oeddem yn cyflawni ac effeithiolrwydd yr hyn a gyflawnwyd gennym.

Ac mae rhywfaint o hynny, rwy'n credu, y mae angen i ni ganolbwyntio arno i geisio ennill ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn ôl.

Chi'n gwybod, pryd bynnag y mae'r cyhoedd yn gweld, fel rydych chi'n ei ddweud, gwasanaethau y maen nhw'n ceisio cael mynediad iddynt o ansawdd gwael, ddim yn gwella, yn symud i'r cyfeiriad anghywir.

Betsan

Ddim yn gallu gweld meddyg.

Adrian

Yn union.

Betsan

Twll yn nho'r ysgol.

Adrian

Wrth gwrs, maen nhw'n teimlo nad yw hynny o reidrwydd yn adlewyrchu ar y cyrff unigol o reidrwydd, yn sicr ddim ar y staff unigol y maent yn ymgysylltu â nhw, ond gyda'r system yn ei chyfanrwydd.

Mae rhywbeth o'i le gyda'r system.

Felly, mae cyflymder a chyflawni yn hollol allweddol, ac mae peth o'n gwaith yn Archwilio Cymru yn taflu goleuni craff iawn ar hynny.

Y peth arall, y byddwn i'n ei ddweud sy'n bendant iawn o fewn ein rheolaeth, yw llywodraethu.

A dyna un arall o fy nghyfrifoldebau i gadw llygad ar sut mae sefydliadau yn y sector cyhoeddus yn cael eu llywodraethu.

Mae'n swnio fel pwnc sych, ond mae'n bwysig iawn, mae arna i ofn.

Oherwydd ar y cyfan, chi'n gwybod, y neges y gallaf ei roi a'r sicrwydd rwy'n gobeithio y gallaf ei roi i bobl, yw bod y mwyafrif helaeth ein gwasanaeth cyhoeddus, y mwyafrif helaeth o arian trethdalwyr, yn cael ei reoli'n dda ac yn cael ei lywodraethu'n dda.

Fodd bynnag, mae yna achlysuron lle nad yw hynny'n wir, ac rydw i wedi cael achos i amlygu hynny dros y saith mlynedd a hanner diwethaf.

Ac a yw hynny oherwydd nad yw'r strwythurau yn iawn neu nad yw pobl yn gwneud y peth iawn?

Dydyn nhw ddim yn poeni digon?

Dydyn nhw ddim yn cadw llygad digon agos?

Beth yw'r rhesymau?

Adrian

Pob un o'r rhai yna, mae gen i ofn.

Nid yw'n unigryw, chi'n gwybod, i unrhyw ran o'r system.

Rwyf wedi adrodd am fethiannau llywodraethu yn Llywodraeth Cymru ei hun, rhannau o'r GIG, rhannau o lywodraeth leol, cyrff hyd braich, hyd at gynghorau tref bach.

Mae nodweddion cyffredin, byddwn i'n dweud, bob amser yn elfen o broses, chi'n gwybod, pethau diflas, ond mae'n rhaid i ni ei gael yn iawn.

Ac os oes gennym weithdrefnau a phrosesau ar waith, gadewch i ni eu dilyn yn iawn.

Ond byddwn i'n dweud mai'r elfen fwy arwyddocaol, sy'n gyffredin, yw pobl, chi'n gwybod, ac ymddygiad a'r camau y mae pobl yn eu cymryd.

Ac weithiau nid yw hynny'n adlewyrchiad arnyn nhw fel bodau dynol, ond maen nhw'n gwneud y peth anghywir.

Ar adegau eraill, rwy'n ofni y gall pobl sydd dan bwysau golli golwg ar rai o'r gwerthoedd a'r ymddygiadau yr ydym ni i gyd eisiau eu gweld mewn arweinyddiaeth gwasanaeth cyhoeddus, ac rwy'n siŵr sydd wedi dod â phobl i mewn i'r maes gwaith hwnnw yn y lle cyntaf.

Rwy'n siŵr eu bod yn gwerthfawrogi eich bod chi'n dewis eich geiriau yn ofalus iawn fan yna.

Mae'n nifer fach o achosion, ond mewn ffordd nid oes ots am hynny, oherwydd rwy'n meddwl, bob tro rwy'n galw allan rhywfaint o lywodraethu yn methu mewn rhan o'r gwasanaeth cyhoeddus, mae'n llygru'r system gyfan, chi'n gwybod, mae'n lliwio barn y cyhoedd ohonom i gyd.

Felly, rwy'n ymwybodol iawn pan fyddaf yn sôn am y pwnc hwn y gallaf ddod ar draws fel ychydig yn wynnach na gwyn, chi'n gwybod, mae hwn yn fyd anodd i weithredu ynddo, rolau anodd.

Mae pobl o dan lawer o bwysau.

Ond mae mor bwysig i mi oherwydd, fel rwy'n dweud, chi'n gwybod, mae dim ond un enghraifft yn effeithio ar ganfyddiadau cyhoeddus o'r system gyfan.

ac mae'n rhaid i ni wasgu hynny allan.

Byddwn i'n dweud yr un peth, mae'n hawdd pwyntio bys.

Ond yn sicr mae'n teimlo, ac roedd yn teimlo yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf yng Nghymru, fel bod yna lawer o sefydliadau, sefydliadau cyhoeddus, lle'r oedd pethau'n mynd o'i le ac roeddent yn cael eu galw allan.

Ac eto, pan oedd pobl yn gorfod gadael neu ddewis gadael oherwydd nad oedd pethau'n mynd mor dda, roedd yn ymddangos eu bod yn gadael gyda siec fawr, ac o safbwynt ymddiriedaeth a hyder, chi'n gwybod, nid yw hynny'n helpu, ydy e?

Pan fydd pobl yn dweud, wel, os ydyn nhw'n anghywir, chi'n gwybod, dydw i ddim yn cael siec fawr pan fyddaf yn gadael fy swydd, felly pam maen nhw?

Adrian

Yn hollol.

Allai ddim cytuno mwy.

Nawr, nid yw pawb sy'n gadael gwasanaeth cyhoeddus yn gwneud hynny gyda siec fawr, ac nid yw pawb sy'n gadael gyda siec fawr yn gwneud hynny'n anghyfreithlon.

Ond mae siec fawr hefyd, yn dangos pa mor hen ydw i, gan ddefnyddio'r gair siec, ond dyna ni, rydych chi'n gwybod beth rwy'n ei olygu?

Ond rydych chi'n gwybod eich bod chi'n hollol iawn, chi'n gwybod, mae cost llywodraethu gwael, cost chwalu cysylltiad, yn enwedig pan mae'n agos at frig sefydliad, yn dod â chost ariannol y mae pobl yn ei weld ar ffurf cytundebau setliad a thaliadau, ffioedd cyfreithiol, ffioedd ymgynghori ac yn y blaen.

Nid yw'r rhain yn ansylweddol o gwbl.

Yn fwy sylweddol, byddwn i'n dweud, mae hefyd yn gwanhau arweinyddiaeth sefydliad pwysig, chi'n gwybod, ac os yw'n tynnu sylw, sefydliad oddi wrth ei brif bwrpas, mae'r costau hynny'n anoddach i'w meintoli, ond yn llawer mwy difrifol, byddwn i'n awgrymu.

Roedd gen i un dyfyniad arall yr oeddwn i eisiau, ar y math hwn o bwnc, fe wnaethoch chi gyflwyno adroddiad ar Wasanaethau Canser yng Nghymru.

Mae bob amser yn adroddiad lle mae diddordeb mawr ynddo.

Mae'n effeithio ar gymaint o bobl.

Ac fe wnes i edrych yn ôl ar y pennawd oherwydd rwy'n ei gofio, chi'n gwybod, yn fy nharo ar y pryd, roedd y pennawd yn bennawd y BBC ar y pryd. "Mae penaethiaid sydd i fod i wella'r GIG yn ei wneud yn waeth". Fe wnaeth fy nharo i. Mae e y fath o beth ddywedoch chi, ond dydych chi ddim wedi ei ddweud yn sicr yn y mathau hynny o eiriau, a bod yn rhaid ei fod yn mynd yn anoddach ac yn anoddach, a her arall i wasanaethau cyhoeddus yw cael yr arweinwyr hynny i mewn nawr a fydd yn gwneud y rolau hyn.

Ie. Wel, dwi'n siŵr nad oedd y pennawd hwnnw yn bennawd Archwilio Cymru.

Nid dyna'r math o iaith rydyn ni'n ei ddefnyddio yma.

Ond rydych chi'n hollol iawn, mae'n gwneud hynny.

Rydych chi'n nodi mater pwysig yn y fan yna, chi'n gwybod, pam y byddai pobl eisiau rhoi eu hunain yn y math yna o swyddi?

Chi'n gwybod, oherwydd mae'r drafferth posibl sy'n dod eich ffordd, os ydych chi'n cael pethau'n anghywir yn wirioneddol ddifrifol.

Y pwynt hanfodol yr oeddwn yn ceisio ei wneud yn yr adroddiad hwnnw ar Wasanaethau Canser, wel, roedd yn enghraifft glasurol, mewn gwirionedd, lle chi'n gwybod, rydym wedi rhoi mwy o adnoddau i'r maes hwnnw ymhell uwchlaw cynnydd chwyddiant mewn cyllid.

Yn hollbwysig yn amlwg, gan effeithio ar lawer o bobl a'u hanwyliaid yn y boblogaeth.

Ac eto yr hyn rydyn ni'n ei weld yw canlyniadau gwael, amseroedd aros cynyddol ac yn y blaen.

Y pwynt critigol yr oeddem yn ceisio ei dynnu allan yno oedd yr angen i Lywodraeth Cymru, yn enwedig yn yr hyn a elwir yn Weithrediaeth y GIG ar frig y GIG, i ddarparu arweinyddiaeth llawer cliriach a mwy craff o'r system gyfan, oherwydd mae pawb sy'n ymwneud â'r maes gwaith hwnnw yn ofnadwy o awyddus i wneud y peth iawn, yn amlwg.

Ond yr hyn yr oedd angen i ni ei wneud, yn fy marn i, oedd gwau at ei gilydd a rhoi llywiad cliriach ar flaenoriaethau a strategaeth ar gyfer y system gyfan.

Ac a yw weithiau yn rhy gymhleth ar y brig?

Dwi'n meddwl, efallai y gallwn ni ddod at hyn fel datrysiad, ond weithiau rydych chi'n cael yr argraff bod enwau sefydliadau newydd trwy'r amser, ac ni allaf gadw i fyny â nhw, sy'n cadw llygad ar bethau ac yn rhedeg pethau ac a yw hynny'n golygu weithiau er ei fod wedi'i wneud gyda'r ewyllys gorau yn y byd, mae'n golygu ei fod yn fwy o gyfle i bwyntio bys at wel, nid ein bai ni, ond nhw.

Ac roeddwn i'n meddwl eu bod nhw'n gwneud hynny a, chi'n gwybod, y math yna o beth?

Adrian

Ie, ie.

Chi'n gwybod, rydyn ni'n wlad fach, 3 miliwn+ o bobl.

Betsan

A ddylai fod yn rhywbeth cadarnhaol.

Adrian

Mae yn gadarnhaol. A dylai fod yn rhywbeth y gallwn ei ddefnyddio i'n mantais. Chi'n gwybod, mae hynny'n ddigon mawr i fod yn strategol ac i wneud rhai pethau o bwys, ond yn ddigon bach fel y gallwn fod yn ystwyth a chydweithredol ac yn y blaen.

Ond o mam bach, rydyn ni'n gwneud y system yn gymhleth.

Felly, chi'n gwybod, fel enghraifft, fy mhrif orchwyl yw archwilio cyfrifon pob rhan o'r gwasanaeth cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cyfrifon ar gyfer tua 100 o sefydliadau sector cyhoeddus arwyddocaol o un ffurf neu'r llall.

Mae hynny'n brysur i ddechrau.

Ar ben hynny, mae gennym lu o wahanol drefniadau cydweithredol a phartneriaeth, sydd yno i geisio ein helpu i ddatrys rhai o'r materion anoddaf na ellir eu datrys gan un sefydliad, mae angen gwahanol rannau o'r system i weithio gyda'i gilydd.

Felly, mae gennym bethau o'r enw byrddau gwasanaethau cyhoeddus, mae gennym fyrdau partneriaeth rhanbarthol, mae gennym gyd-bwyllgorau corfforedig, mae gennym ranbarthau bargeinion dinesig, mae gennym gonsortia addysg.

Mae'r rhestr yn mynd ymlaen.

Ac mae'r cymhelliant a'r syniad y tu ôl i bob un o'r cyrff a'r strwythurau hynny rwy'n siŵr yn gadarnhaol, yno am reswm da.

Ond rydych chi'n eu rhoi nhw i gyd at ei gilydd a'r hyn sydd ar ôl yw system sy'n rhy gymhleth.

Ac mae canlyniadau hynny, yn niferus, chi'n gwybod, mae'r strwythurau a'r cyrff hynny yn aml yn cael eu poblogi yn y bôn gan yr un bobl sy'n gorfod mynd i wahanol gyfarfodydd a chwarae rhan mewn gwahanol feysydd.

Felly mae hynny'n ymestyn eu capsiti yn denau iawn.

Ond mae hefyd o bosibl yn arwain at system sy'n dameidiog yn ei chyflawniad ac o bosibl ychydig yn araf o ganlyniad i'w chyflawniad.

Felly'r cyflymder roeddech chi'n sôn amdano.

Mae'r cyflymder hwnnw weithiau, mae hynny wrth ei wraidd.

Ond mae hefyd o safbwynt dinasyddion, yn ei gwneud hi'n anodd deall, fel rydych chi'n ei ddweud, pwy sy'n gyfrifol am beth.

Chi'n gwybod, dydw i ddim yn poeni mewn gwirionedd.

Rwy'n gwybod bod angen, chi'n gwybod, mynediad i A, B, neu C.

Ond mae llywio'r system honno pan fydd mor gymhleth, o safbwynt dinasyddion, yn fwy anodd byth.

Felly gwrandewch cyn i drên arall fynd heibio, a dydw i ddim yn credu y byddai Trafnidiaeth Cymru yn diolch i ni am stopio eu trenau.

Felly allwn ni ddim helpu hynny chwaith.

Felly rydyn ni wedi siarad am lai o arian, mwy o alw, llai o ymddiriedaeth a hyder, mwy o gymhlethdod.

Unrhyw heriau eraill i'w rhoi allan yna, neu a ydym fwy neu lai wedi mynd trwy'r heriau cyn i ni ddod â'r bennod hon i ben a siarad am ddatrysiadau posibl?

Adrian

Byddai hynny'n ddigon. Ond yn anffodus, mae yna lawer o rai eraill.

Betsan

Ewch ymlaen, rhestr gyflym.

Ni fyddaf yn rhoi rhestr gyflym i chi, ond efallai eich bod chi'n gwybod, yr un na allwn ei anwybyddu yw'r pethau sydd allan gyda Chymru yn effeithio ar y byd i gyd, ie.

Felly mae digwyddiadau geowleidyddol dramor, chi'n gwybod, mae'r rhyfel yn y Wcráin wedi achosi pwysau o ran chwyddiant ledled y byd.

Ac mae hynny'n amlygu ei hun yn y pwysau cost y mae ein gwasanaethau cyhoeddus yn eu hwynebu.

Gan aros gyda Wcráin, chi'n gwybod, fe wnaeth y llywodraeth gynnal rhaglen i adsefydlu Wcreiniaid, yng Nghymru.

Ysgrifennais adroddiad ar hynny, yn gadarnhaol iawn, er tegwch i Lywodraeth Cymru, am y cydweithrediad a'r pwyslais y gallem ei weld ar draws y system i gyflawni hynny.

Efallai mai'r mwyaf o'r cyfan sy'n ein hwynebu ac sy'n cael effaith wirioneddol ar wasanaethau cyhoeddus yma yw newid hinsawdd, chi'n gwybod, sy'n amlygu mewn costau tymor byr yn y byd go iawn pan fydd yn rhaid i ni ddelio â digwyddiadau tywydd eithafol neu ganolbwyntio mwy ar amddiffyn rhag llifogydd neu beth bynnag y gall fod.

Ond hyd yn oed yn fwy na hynny, mae gwaith y mae fy swyddfa i wedi'i wneud wedi dangos bod symiau sylweddol iawn, ond heb eu meintoli eto sy'n angenrheidiol os yw'r sector cyhoeddus, heb sôn am

Gymru gyfan i symud tuag at sero net.

Felly, her enfawr i'r holl wasanaeth cyhoeddus i roi rhif yn blaen ar hynny, oherwydd mae'n rhaid i ni wneud hynny cyn y gallwn wneud y gwaith hyd yn oed anoddach o weithio allan sut rydyn ni'n mynd i gwrdd â'r galw hwnnw.

Felly, ni allwn anwybyddu'r pwysau allanol byd-eang hynny, oherwydd maen nhw'n cael effaith wirioneddol arnom ni gartref.

Felly gwrandewch, cyn i ni fynd ymlaen i'r drydedd bennod ac rydyn ni'n mynd i ddechrau bod yn gadarnhaol a siarad am gyfleoedd i wella, ac yn y blaen.

Gadewch i ni orffen y bennod hon gyda eich meddyliau chi ar, rydym 25 mlynedd i mewn i ddatganoli.

Rydyn ni, i raddau helaeth wedi gwneud pethau ein ffordd ein hunain yng Nghymru.

A bydd pobl yn gwrandao o bob math o gefndiroedd, pob math o gefndiroedd gwleidyddol.

Rhai yn gefnogwyr datganoli, rhai ddim.

Pleidleisiodd rhai dros weinyddiaeth Llafur olynol, rhai ddim.

Felly gadewch i ni roi hynny o'r neilltu i gyd.

Ond dim ond dweud, 25 mlynedd wedyn, rydyn ni'n clywed llawer o benawdau o bethau'n gwneud yn well mewn rhannau o Loegr.

Yn sicr, chi'n gwybod, canlyniadau addysg, rhestrau aros, chi'n gwybod, mae'n ymddangos bod Cymru yn dal i gael trafferth.

Beth yw hynny?

A yw'n siom?

A yw'n fethiant?

Beth yw e?

Sut ydych chi'n ei feintioli?

Dydw i ddim yn mynd i fynd i mewn i'r hyn a'r llall o ble gallai mesurau edrych yn fwy cadarnhaol neu'n llai cadarnhaol yng Nghymru neu Loegr oherwydd gallwn ni i gyd chwarae'r gêm honno a dewis ein hystadegau.

Mae fy ngolwg ar y sefyllfa yng Nghymru, nid yn Lloegr.

A'r hyn rwy'n ei weld, yn bendant rhai heriau enfawr.

Heb os, mae angen newid eithaf sylfaenol yn y ffordd rydyn ni'n mynd i wneud pethau yma.

Ond rydyn ni'n ei ddal gyda'i gilydd ar hyn o bryd trwy ymdrechion anhygoel ar ran gweision cyhoeddus, gwleidyddion, uwch arweinwyr, staff rheng flaen yr holl ffordd drwy'r system.

Ac mae llawer sy'n dda am ein darpariaeth o wasanaethau cyhoeddus.

Mae gennym nodweddion unigryw ynddo, y mae'r byd yn edrych atynt am arweinyddiaeth.

Y mwyaf amlwg, mae'n debyg, yw'r gwaith y mae'r gwasanaeth cyhoeddus yn ei gyflawni ynglŷn â meddwl cenedlaethau'r dyfodol.

Byddaf yn dweud mwy am hynny gan fy mod yn meddwl bod mwy y mae angen i ni ei wneud.

Ond heb os, fel darn o ddeddfwriaeth a chyflwyno polisi blaengar sy'n wirioneddol flaenllaw yn y byd.

A llawer o enghreifftiau eraill o arfer da yr ydym yn eu gweld trwy ein gwaith.

Bob amser yn gweld y negyddol ar bethau.

Chi'n gwybod, un o'r pethau, yn anffodus, er gwaethaf bod yn wlad fach sydd wir yn wlad gysylltiedig, rhwydweithiol, dydyn ni dal ddim yn dda iawn am wneud i arfer da lifo trwy'r system, chi'n gwybod,

A chysylltu hynny a'i wneud yn rhywbeth yr ydym ni i gyd yn elwa ohono.

Felly mae mwy y mae angen i ni ei wneud yn y maes hwnnw.

Mae'n ymwneud â'r pwynt a wnaethom yn gynharach am ddarnio a chymhlethdod y system.

Efallai mai dyna un o'r rhwystrau sydd yn ein ffordd.

Ond mae yna lawer, heb os, i fod yn falch iawn ohono yn system Cymru.

Ond gallwn yn bendant wneud yn well.

Iawn.

Felly, yn y drydedd bennod, rydyn ni'n mynd i fod yn fwy gobeithiol neu rydyn ni'n mynd i geisio mynd trwy, wel, a yw'n obeithiol neu geisio bod yn realistig am yr hyn y gellir ei wneud.

Fel nad ydym yn rhestru problemau yn unig.

Felly, os ydych chi eisiau gwybod, beth ydych chi'n ei feddwl, Adrian Crompton, dylai'r dyfodol fod a beth ddylai newid, yna ymunwch â ni yn y drydedd bennod.

Am y tro, diolch. Hwyl.